**Eitem ar yr agenda: 9**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**Y PANEL GWEITHREDOL**

**26 HYDREF 2005**

**YMGYNGHORIAD AR ORCHYMYN Y GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB (CODI TALIADAU AC ARGYFYNGAU) (CYMRU) 2005**

Adroddiad gan y Clerc

**Diben yr Adroddiad**

1 Ystyried ymateb i'r ddeddfwriaeth ddrafft.

**Cefndir**

2 Daeth y papur ymgynghorol allan ar 13 Hydref, a gofynnir am yr ymatebion erbyn 25 Tachwedd. Mae'r gorchymyn drafft yn rhestru'r gwasanaethau y gall yr awdurdodau tân ac achub godi taliadau amdanynt (er mai mater iddynt hwy yw lefel y taliadau, ac fe allent beidio a chodi tâl o gwbl), a'r argyfyngau heblaw am danau a damweiniau ar y ffyrdd y mae'n rhaid i'r awdurdodau wneud darpariaeth ar eu cyfer.

3 Ers Tachwedd 2004, pan ddaeth Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 i rym, y sefyllfa statudol yw nad yw'r awdurdodau yng Nghymru wedi cael pwerau clir i godi taliadau: ni fodolodd bwlch o'r fath rhwng deddf 1947 a Deddf 2004 yn Lloegr. Felly hefyd, mae diffyg deddfwriaeth dan adran 9 o Ddeddf 2004 wedi gadael gwagle o fath o ran y sail gyfreithiol ar gyfer llawer o fathau eraill o argyfyngau a digwyddiadau y mae'r gwasanaethau tân ac achub yn draddodiadol wedi ymateb iddynt.

**Codi Taliadau**

4 Mae'r gorchymyn drafft ar gyfer Cymru yn ailadrodd gorchymyn a ddaeth i rym yn Lloegr ar 1 Hydref 2004. Mae'r oedi am dros 12 mis ac wedi hynny wneud dim ond copïo gwaith yr ODPM yn destun pryder am allu Llywodraeth y Cynulliad i weinyddu'n gywir y cyfrifoldebau sydd ganddo bellach am y gwasanaeth tân ac achub. Atgyfnerthir y pryder hwn gan y methiant i dalu unrhyw sylw i'r sylwadau a gyflwynodd yr awdurdod hwn i'r ODPM, ac a gopïwyd i Lywodraeth y Cynulliad, ynghylch Mesur y Gwasanaethau Tân ac Achub yn ystod Chwefror a Mawrth 2004, sef y

dylai'r gorchymyn yng Nghymru wneud darpariaeth i alluogi codi taliadau am ymateb i alwadau diangen gan systemau larwm tân awtomatig. Adleisiwyd y sylwadau hyn yn sylwadau'r Awdurdod i'r ODPM ym Mai 2004 wrth ymateb i'r ddogfen ymgynghorol ar gyfer Lloegr ynghylch codi taliadau. Mae galwadau diangen gan systemau larwm tân awtomatig yn dreth fawr ar y gwasanaeth, gan ddargyfeirio adnoddau a allai gael eu defnyddio mewn argyfwng gwirioneddol yn rhywle arall, a byddai codi taliadau yn fodd i annog perchnogion eiddo i ostwng nifer y galwadau diangen.

5 Heblaw am lobïo eto am gynnwys darpariaeth o'r fath yn y gorchymyn hwn, pwynt arall a nodwyd yw fod y ddeddfwriaeth yn yr Alban yn defnyddio geiriad gwahanol ynghylch diffodd tanau ayyb ar y môr:

| Y Gorchymyn Drafft ar gyfer Cymru | Yr Alban (Offeryn Statudol 2005/343) |
|---|---|
| *Diffodd tanau ar y môr neu o dan y môr, neu amddiffyn bywyd ac eiddo petai tanau o'r fath | *Diffodd tanau ar y môr, amddiffyn bywyd ar y môr neu amddiffyn eiddo petai tanau ar y môr |

Fe allai hyn adlewyrchu gwahaniaethau yng ngeiriad y ddwy Ddeddf, ond mae'r geiriad ar gyfer yr Alban (*"amddiffyn bywyd ar y môr") yn ehangach na'r geiriad arfaethedig ar gyfer Cymru, sydd ddim ond yn galluogi codi taliadau wrth amddiffyn bywydau petai tân ar y môr.

6 Mae'r papur ymgynghorol yn ceisio barn ynghylch a ddylai'r gorchymyn ei hun gynnwys unrhyw gyfyngiad ar godi taliadau am gyngor, er enghraifft, cyngor am ddiogelwch tân cymunedol i fusnesau unigol o'i gymharu â chyngor ar sail ymgynghorol i ddatblygiadau mawr megis siopau newydd a phrosiectau peirianneg sifil mawr eraill. Nid oes unrhyw gyfyngiad yn Lloegr na'r Alban. Y cynnig yw y dylem ni ddadlau yn erbyn cael unrhyw gyfyngiad yng Nghymru: nid yw'r gorchymyn yn caniatáu codi tâl am gyngor i unigolion o'r cyhoedd ac fe allai'r geiriad "masnach, busnes neu unrhyw fentrau eraill*" eithrio rhai categorïau eraill megis eglwysi. Heblaw am hynny, mater i'r awdurdodau ei benderfynu yw a ddylid cael unrhyw eithriadau i godi taliadau am gyngor.

7 Unwaith y bydd y gorchymyn yn derfynol, bydd adroddiad yn dod gerbron cyfarfod yn y dyfodol o'r Panel Gweithredol neu'r awdurdod llawn ynghylch telerau polisi ar godi taliadau.

**Argyfyngau**

8 Mae erthyglau 5 i 10 o'r gorchymyn yn rhestru'r mathau o ddigwyddiadau, heblaw am danau a damweiniau ar y ffyrdd, lle mae'n

rhaid i'r awdurdod wneud darpariaeth. Mae'r rhain i'w gweld yn dderbyniol ar y cyfan ac yn ymwneud â gwasanaethau y mae'r awdurdod wedi eu darparu yn y gorffennol.

9 Serch hynny, nid yw erthygl 8 yn ymdrin yn ddigonol ag ystod lawn y gwasanaethau y gellid bod yn eu darparu ar longau. Er enghraifft, nid yw'n eglur fod tân ar long yn y porthladd yn "ddigwyddiad trafnidiaeth difrifol ar y môr*". Mae erthygl 8(2) yn ddiangen oherwydd fod y tri awdurdod yng Nghymru yn ffinio â'r môr. Serch hynny, ni ddylai'r ddarpariaeth hon fod yn berthnasol i Awdurdod Tân De Cymru gan mai dim ond Awdurdodau Tân y Gogledd a'r Canolbarth a'r Gorllewin sy'n darparu gwasanaethau ar y môr.

**Argymhelliad**

10 Bod y Panel yn ystyried telerau ei ymateb i'r gorchymyn (cyflwynir drafft gerbron y cyfarfod).

* Nid oes fersiwn Gymraeg o'r ymgynghoriad wedi ei gyhoeddi ac felly dynodir unrhyw gyfieithiadau ag * gan eu bod yn gyfieithiadau answyddogol.